OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1282 (Cy. 209)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025

2025 No. 1282 (W. 209)

AGRICULTURE, WALES

The Basic Payment Scheme (Tapering, Payment Entitlements and Closure) (Wales) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith a gymathwyd a deddfwriaeth arall mewn perthynas â Chynllun y Taliad Sylfaenol ("BPS") a sefydlwyd o dan Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol"). Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i dapro taliadau o dan BPS o 1 Ionawr 2026 tan ddiwedd 2028 pan fydd BPS yn cau. Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan adran 16(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer cau BPS ar 31 Rhagfyr 2028 ac yn rhestru deddfwriaeth sydd i'w dirymu pan fydd y cynllun yn cael ei gau.

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru dapro taliadau o dan BPS hyd nes y bydd yn cael ei gau.

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol er mwyn newid y ffordd y gellir trosglwyddo hawliau i daliadau BPS. Ni ellir trosglwyddo hawliau oni bai bod pob hawl yn cael ei throsglwyddo gyda hectar cymwys yn yr un trafodiad oddi wrth yr un trosglwyddwr.

Mae rheoliad 6 yn diwygio cyfraith a gymathwyd er mwyn atal ffermwyr ifanc rhag hawlio Taliad i Ffermwyr Ifanc o dan y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol am y tro cyntaf.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend assimilated law and other legislation in relation to the Basic Payment Scheme ("BPS") established under Regulation (EU) No 1307/2013 ("the Direct Payments Regulation"). These Regulations give the Welsh Ministers the power to taper payments under the BPS from 1 January 2026 until the end of 2028 when the BPS will close. These Regulations are made by the Welsh Ministers under powers conferred by section 16(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023.

Regulation 3 provides for the closure of the BPS on 31 December 2028 and lists legislation to be revoked upon closure of the scheme.

Regulation 4 amends the Direct Payments Regulation to allow the Welsh Ministers to taper payments under the BPS until its closure.

Regulation 5 amends the Direct Payments Regulation to change the way in which BPS payment entitlements can be transferred. Entitlements cannot be transferred unless each entitlement is transferred with an eligible hectare in the same transaction from the same transferor.

Regulation 6 amends assimilated law to prevent young farmers claiming Young Farmer Payment under the Direct Payments Regulation for the first time.

Mae rheoliadau 7, 8 a 9 yn gwneud darpariaeth i gau'r cronfeydd cenedlaethol a rhanbarthol, ac effaith hynny yw nad yw ffermwyr yn gallu cael hawliau i'w defnyddio ar gyfer hawliadau o dan BPS o'r cronfeydd hynny.

Regulations 7, 8 and 9 make provision to close the national and regional reserves, the effect of which being that farmers are unable to obtain entitlements to use for claims under the BPS from those reserves.

Mae rheoliad 10 ac 11 yn gwneud diwygiadau ychwanegol i gyfraith a gymathwyd.

Regulation 10 and 11 make additional amendments to assimilated law.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 1282 (Cy. 209)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025

Gwnaed *3 Rhagfyr 2025*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 16(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023(**1**).

Yn unol ag adran 50(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2026, yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Daw rheoliad 3(2) o'r Rheoliadau, a'r Atodlen iddynt, i rym ar 1 Ionawr 2029.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cynllun y taliad sylfaenol" ("*basic payment scheme*") yw Cynllun y Taliad Sylfaenol o dan y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol;

(**1**) 2023 dsc 4.

2025 No. 1282 (W. 209)

AGRICULTURE, WALES

The Basic Payment Scheme (Tapering, Payment Entitlements and Closure) (Wales) Regulations 2025

Made *3 December 2025*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 16(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023(**1**).

In accordance with section 50(6) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Basic Payment Scheme (Tapering, Payment Entitlements and Closure) (Wales) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 1 January 2026, subject to paragraph (3).

(3) Regulation 3(2) of, and the Schedule to, the Regulations come into force on 1 January 2029.

(4) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

"basic payment scheme" ("*cynllun y taliad sylfaenol*") means the Basic Payment Scheme under the Direct Payments Regulation;

(**1**) 2023 asc 4.

ystyr "y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol"(**1**) ("*the Direct Payments Regulation*") yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

Cau cynllun y taliad sylfaenol

3.—(1) Bydd cynllun y taliad sylfaenol yn peidio â bodoli ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2028.

(2) Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth sy'n dirymu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol.

Tapro taliadau o dan gynllun y taliad sylfaenol

4.—(1) Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl Erthygl 5A (cyfanswm y terfyn ar gyfer Cymru), mewnosoder—

"*Article 5B*

Tapering of payments under the basic payment scheme in Wales

1. The Welsh Ministers may annually reduce payments under the basic payment scheme by such amounts as they consider appropriate."

Trosglwyddo a defnyddio hawliau

5.—(1) Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 34 (trosglwyddo hawliau i daliadau), ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Transfer of payment entitlements, by any method, can only take place if it includes the transfer of an eligible hectare in the same transaction from the same transferor."

Taliad i ffermwyr ifanc

6.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau

(**1**) EUR 2013/1307; mewnosodwyd Erthygl 5A gan O.S. 2020/1556 (Cy. 328); diwygiwyd Erthygl 22 gan O.S. 2020/91 ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328); diwygiwyd Erthygl 30 gan O.S. 2020/1556 (Cy. 328); diwygiwyd Erthygl 31 gan O.S. 2020/1556 (Cy. 328); diwygiwyd Erthygl 34 gan O.S. 2020/91 ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328) ac O.S. 2025/82; mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"the Direct Payments Regulation"(**1**) ("*y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol*") means Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy.

Closure of the basic payment scheme

3.—(1) The basic payment scheme will cease to exist at the end of 31 December 2028.

(2) The Schedule makes provision revoking legislation governing the basic payment scheme.

Tapering of payments under the basic payment scheme

4.—(1) The Direct Payments Regulation is amended as follows.

(2) After Article 5A (the total ceiling for Wales), insert—

"*Article 5B*

Tapering of payments under the basic payment scheme in Wales

1. The Welsh Ministers may annually reduce payments under the basic payment scheme by such amounts as they consider appropriate."

Transfer and use of entitlements

5.—(1) The Direct Payments Regulation is amended as follows.

(2) In Article 34 (transfer of payment entitlements), after paragraph (1) insert—

"(1A) Transfer of payment entitlements, by any method, can only take place if it includes the transfer of an eligible hectare in the same transaction from the same transferor."

Young farmer payment

6.—(1) Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014 of 11 March 2014 supplementing Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to

(**1**) EUR 2013/1307; Article 5A was inserted by S.I. 2020/1556 (W. 328); Article 22 was amended by S.I. 2020/91 and S.I. 2020/1556 (W. 328); Article 30 was amended by S.I. 2020/1556 (W. 328); Article 31 was amended by S.I. 2020/1556 (W. 328); Article 34 was amended by S.I. 2020/91 and S.I. 2020/1556 (W. 328) and S.I. 2025/82; there are other amendments that are not relevant to these Regulations.

uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac yn diwygio Atodiad X i'r Rheoliad hwnnw(**1**), wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 25 (trosglwyddo hawliau)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "at any time of the year" mewnosoder "providing that each entitlement is transferred with an eligible hectare";

(b) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) For the purpose of this Article, "eligible hectare" has the meaning given in Article 32(2) of Regulation (EU) No 1307/2013."

(3) Yn Erthygl 49 (mynediad personau cyfreithiol at y taliad ar gyfer ffermwyr ifanc), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) The annual payment for young farmers in Wales referred to in Article 50(1) of Regulation (EU) No 1307/2013 is only available to those young farmers who are already receiving such payment before 1 January 2026."

Cau'r cronfeydd cenedlaethol a rhanbarthol yn y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol

7.—(1) Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 30 (sefydlu a defnyddio'r gronfa genedlaethol neu gronfeydd rhanbarthol).

(3) Hepgorer Erthygl 31 (ailgyflenwi'r gronfa genedlaethol neu gronfeydd rhanbarthol).

Cau'r cronfeydd cenedlaethol a rhanbarthol yn Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014

8.—(1) Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 26 (dychwelyd i'r gronfa genedlaethol neu ranbarthol o ganlyniad i gadw hawliau i daliadau wrth drosglwyddo).

(3) Hepgorer Erthygl 28 (sefydlu hawliau i daliadau o'r gronfa genedlaethol neu ranbarthol o dan Erthygl 30(6) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013).

(**1**) EUR 2014/639; diwygiwyd Erthygl 25 gan O.S. 2020/91; diwygiwyd Erthygl 26 gan O.S. 2020/91 ac O.S. 2020/1556; diwygiwyd Erthygl 28 gan O.S. 2020/91; diwygiwyd Erthygl 29 gan O.S. 2020/91 ac O.S. 2020/1556; diwygiwyd Erthygl 30 gan O.S. 2020/91 ac O.S. 2020/1556; diwygiwyd Erthygl 49 gan EUR 2016/141, EUR 2017/1155, O.S. 2020/91, O.S. 2020/576 ac O.S. 2020/1556 (Cy. 328).

farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy and amending Annex X to that Regulation(**1**), is amended as follows.

(2) In Article 25 (transfer of entitlements)—

(a) in paragraph (1), after "at any time of the year" insert "providing that each entitlement is transferred with an eligible hectare";

(b) after paragraph (2), insert—

"(3) For the purpose of this Article, "eligible hectare" has the meaning given in Article 32(2) of Regulation (EU) No 1307/2013."

(3) In Article 49 (access of legal persons to the payment for young farmers), after paragraph (4) insert—

"(5) The annual payment for young farmers in Wales referred to in Article 50(1) of Regulation (EU) No 1307/2013 is only available to those young farmers who are already receiving such payment before 1 January 2026."

Closure of the national and regional reserves in the Direct Payments Regulation

7.—(1) The Direct Payments Regulation is amended as follows.

(2) Omit Article 30 (establishment and use of the national reserve or regional reserves).

(3) Omit Article 31 (replenishment of the national reserve or regional reserves).

Closure of the national and regional reserves in Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014

8.—(1) Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014 is amended as follows.

(2) Omit Article 26 (reversion to the national or regional reserve due to retention on transfer of payment entitlements).

(3) Omit Article 28 (establishment of payment entitlements from the national or regional reserve under Article 30(6) of Regulation (EU) No 1307/2013).

(**1**) EUR 2014/639; Article 25 was amended by S.I. 2020/91; Article 26 was amended by S.I. 2020/91 and S.I. 2020/1556; Article 28 was amended by S.I. 2020/91; Article 29 was amended by S.I. 2020/91 and S.I. 2020/1556; Article 30 was amended by S.I. 2020/91 and S.I 2020/1556; Article 49 was amended by EUR 2016/141, EUR 2017/1155, S.I. 2020/91, S.I. 2020/576 and S.I. 2020/1556 (W. 328).

(4) Hepgorer Erthygl 29 (sefydlu hawliau i daliadau o'r gronfa genedlaethol neu ranbarthol o dan Erthygl 30(7) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013).

(5) Hepgorer Erthygl 30 (rheolau pellach ynghylch sefydlu hawliau i daliadau o'r gronfa genedlaethol neu ranbarthol).

Cau'r cronfeydd cenedlaethol a rhanbarthol yn Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

9.—(1) Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliad 10 (hawliau'r cynllun taliad sylfaenol).

(3) Hepgorer rheoliad 11 (trosglwyddo hawliau).

(4) Hepgorer rheoliad 18 (cronfa genedlaethol).

Diwygiadau ychwanegol yn y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol

10.—(1) Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 5A (cyfanswm y terfyn ar gyfer Cymru)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "must" rhodder "may";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle "must" rhodder "may", a

(ii) yn lle "before the start of the relevant year" rhodder "at any time before payments are made";

(c) ym mharagraff (3), yn lle "must" rhodder "may";

(d) ym mharagraff (4), yn lle ", for any relevant year, must" rhodder "may";

(e) hepgorer paragraff (5).

(3) Yn Erthygl 22 (terfyn cynllun y taliad sylfaenol)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) ar y dechrau mewnosoder "The Welsh Ministers may determine", a

(ii) hepgorer y geiriau o "is the amount which" hyd at y diwedd;

(b) hepgorer paragraff (4);

(c) hepgorer paragraff (5).

(4) Omit Article 29 (establishment of payment entitlements from the national or regional reserve under Article 30(7) of Regulation (EU) No 1307/2013).

(5) Omit Article 30 (further rules on the establishment of payment entitlements from the national or regional reserve).

Closure of the national and regional reserves in the Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015

9.—(1) The Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015(**1**) are amended as follows.

(2) Omit regulation 10 (basic payment scheme entitlements).

(3) Omit regulation 11 (transfer of entitlements).

(4) Omit regulation 18 (national reserve).

Additional amendments in the Direct Payments Regulation

10.—(1) The Direct Payments Regulation is amended as follows.

(2) In Article 5A (the total ceiling for Wales)—

(a) in paragraph (1), for "must" substitute "may";

(b) in paragraph (2)—

(i) for "must" substitute "may", and

(ii) for "before the start of the relevant year" substitute "at any time before payments are made";

(c) in paragraph (3), for "must" substitute "may";

(d) in paragraph (4), for ", for any relevant year, must" substitute "may";

(e) omit paragraph (5).

(3) In Article 22 (basic payment scheme ceiling)—

(a) in paragraph (2)—

(i) at the beginning insert "The Welsh Ministers may determine", and

(ii) omit the words from "is the amount which" to the end;

(b) omit paragraph (4);

(c) omit paragraph (5).

(**1**) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2015/1252 (W. 84), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Diwygiadau ychwanegol yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014

11.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Erthygl 22 (dyrannu hawliau i daliadau neu gynnydd yn eu gwerth).

(3) Yn Erthygl 23 (adennill hawliau i daliadau nad oeddent yn ddyledus), yn lle "revert to the national reserve or regional reserves referred to in Article 30 of Regulation (EU) No 1307/2013", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "be adjusted accordingly".

Additional amendments in the Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014

11.—(1) Commission Implementing Regulation (EU) No 809/2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1306/2013 of the European Parliament and of the Council with regard to the integrated administration and control system, rural development measures and cross compliance(**1**) is amended as follows.

(2) Omit Article 22 (allocation or increase of the value of payment entitlements).

(3) In Article 23 (recovery of undue payment entitlements), for "revert to the national reserve or regional reserves referred to in Article 30 of Regulation (EU) No 1307/2013", in both places it occurs, substitute "be adjusted accordingly".

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
3 Rhagfyr 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
3 December 2025

(**1**) EUR 2014/809; diwygiwyd Erthygl 23 gan O.S. 2019/765, O.S. 2020/90 ac O.S. 2020/1513; mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) EUR 2014/809; Article 23 was amended by S.I. 2019/765, S.I. 2020/90 and S.I. 2020/1513; there are other amendments that are not relevant to these Regulations.

YR ATODLEN Rheoliad 3

Dirymiadau

RHAN 1

Dirymu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru

1. Yn ddarostyngedig i'r arbediad a bennir yn Rhan 2, mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn 1 o Dabl 1 a cholofn 1 o Dabl 2 (a sefydlodd gyda'i gilydd y rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin) wedi eu dirymu, o ran Cymru yn unig, i'r graddau a bennir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o bob un o'r tablau hynny.

Tabl 1

Dirymu cyfraith a gymathwyd benodedig sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru

Y ddeddfwriaeth sydd i'w dirymu	*Graddau'r dirymiad*
Y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol.	Y Rheoliad cyfan i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru
Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac yn diwygio Atodiad X i'r Rheoliad hwnnw(**1**).	Y Rheoliad cyfan i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru
Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r	Y Rheoliad cyfan i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru

(**1**) EUR 2014/639, y mae diwygiadau iddo.

SCHEDULE Regulation 3

Revocations

PART 1

Revocation of legislation governing the basic payment scheme in Wales

1. Subject to the saving specified in Part 2, the instruments listed in column 1 of Table 1 and column 1 of Table 2 (which collectively established the rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy) are revoked, in relation to Wales only, to the extent specified in the corresponding entry in column 2 of each of those tables.

Table 1

Revocation of specified assimilated law governing the basic payment scheme in Wales

Legislation to be revoked	*Extent of revocation*
The Direct Payments Regulation.	The whole of the Regulation in so far as it applies in relation to Wales
Commission Delegated Regulation (EU) No 639/2014 of 11 March 2014 supplementing Regulatio n (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy and amending Annex X to that Regulation(**1**).	The whole of the Regulation in so far as it applies in relation to Wales
Commission Implementing Regulation (EU) No 641/2014 of 16 June 2014 laying down rules for the application of Regulation (EU) No 1307/2013 of the European Parliament and	The whole of the Regulation in so far as it applies in relation to Wales

(**1**) EUR 2014/639, to which there are amendments.

Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**1**).

of the Council establishing rules for direct payments to farmers under support schemes within the framework of the common agricultural policy(**1**).

Tabl 2

Dirymu is-ddeddfwriaeth ddomestig benodedig sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru

Y ddeddfwriaeth sydd i'w dirymu	*Graddau'r dirymiad*
Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2014(**2**).	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) 2015(**3**).	Y Rheoliadau cyfan i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru
Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**4**).	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2016(**5**).	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020(**6**).	Y Rheoliadau cyfan i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru
Y Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020(**7**).	Y Rheoliadau cyfan i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru

Table 2

Revocation of specified domestic secondary legislation governing the basic payment scheme in Wales

Legislation to be revoked	*Extent of revocation*
The Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme (Provisional Payment Region Classification) (Wales) (Amendment) Regulations 2014(**2**).	The whole of the Regulations
The Common Agricultural Policy (Amendment) Regulations 2015(**3**).	The whole of the Regulations in so far as they apply in relation to Wales
The Common Agricultural Policy Basic Payment and Support Schemes (Wales) Regulations 2015(**4**).	The whole of the Regulations
The Common Agricultural Policy (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2016(**5**).	The whole of the Regulations
The Financing, Management and Monitoring of Direct Payments to Farmers (Amendment) Regulations 2020(**6**).	The whole of the Regulations in so far as they apply in relation to Wales
The Rules for Direct Payments to Farmers (Amendment) Regulations 2020(**7**).	The whole of the Regulations in so far as they apply in relation to Wales

(**1**) EUR 2014/641, y mae diwygiadau iddo.
(**2**) O.S. 2014/2367 (Cy. 230).
(**3**) O.S. 2015/1325.
(**4**) O.S. 2015/1252 (Cy. 84).
(**5**) O.S. 2016/217 (Cy. 86).
(**6**) O.S. 2020/90, y mae diwygiadau iddo.
(**7**) O.S. 2020/91.

(**1**) EUR 2014/641, to which there are amendments.
(**2**) S.I. 2014/2367 (W. 230).
(**3**) S.I. 2015/1325.
(**4**) S.I. 2015/1252 (W. 84).
(**5**) S.I. 2016/217 (W. 86).
(**6**) S.I. 2020/90, to which there are amendments.
(**7**) S.I. 2020/91.

Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020(**1**).	Y Rheoliadau cyfan i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru	The Direct Payments to Farmers (Amendment) Regulations 2020(**1**).	The whole of the Regulations in so far as they apply in relation to Wales
Rheoliadau Terfynau Taliadau Uniongyrchol 2020(**2**).	Y Rheoliadau cyfan i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru	The Direct Payments Ceilings Regulations 2020(**2**).	The whole of the Regulations in so far as they apply in relation to Wales
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019(**3**).	Y Rheoliadau cyfan	The Common Agricultural Policy (Miscellaneous Amendments) (Wales) (EU Exit) Regulations 2019(**3**).	The whole of the Regulations
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020(**4**).	Y Rheoliadau cyfan	The Common Agricultural Policy (Direct Payments to Farmers) (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2020(**4**).	The whole of the Regulations
Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020(**5**).	Y Rheoliadau cyfan	The Direct Payments to Farmers (Crop Diversification Derogation) (Wales) Regulations 2020(**5**).	The whole of the Regulations
Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020(**6**).	Y Rheoliadau cyfan	The Direct Payments to Farmers and Rural Affairs (Miscellaneous Amendments etc.) (Wales) (EU Exit) Regulations 2020(**6**).	The whole of the Regulations
Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020(**7**).	Y Rheoliadau cyfan	The Common Agricultural Policy (Payments to Farmers) (Coronavirus) (Wales) Regulations 2020(**7**).	The whole of the Regulations

(**1**) O.S. 2020/576.
(**2**) O.S. 2020/760.
(**3**) O.S. 2019/688 (Cy. 132).
(**4**) O.S. 2020/104 (Cy. 17).
(**5**) O.S. 2020/470 (Cy. 108).
(**6**) O.S. 2020/1556 (Cy. 328).
(**7**) O.S. 2020/473 (Cy. 109).

(**1**) S.I. 2020/576.
(**2**) S.I. 2020/760.
(**3**) S.I. 2019/688 (W. 132).
(**4**) S.I. 2020/104 (W. 17).
(**5**) S.I. 2020/470 (W. 108).
(**6**) S.I. 2020/1556 (W. 328).
(**7**) S.I. 2020/473 (W. 109).

RHAN 2

Arbedion

2. Mae'r darpariaethau a ddirymir gan Ran 1, er gwaethaf y dirymiad hwnnw, yn parhau i gael effaith, o ran Cymru yn unig, i'r graddau y bo'n angenrheidiol at ddibenion penderfynu'n derfynol unrhyw hawliau sy'n ddyledus i gael taliadau uniongyrchol, ac atebolrwyddau sy'n codi mewn cysylltiad â cheisiadau am daliadau uniongyrchol, o dan gynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru a wneir mewn cysylltiad â blwyddyn hawlio sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2028 neu cyn hynny.

PART 2

Savings

2. The provisions revoked by Part 1, notwithstanding that revocation, continue to have effect, in relation to Wales only, so far as is necessary for the purposes of finally determining any outstanding rights to, and liabilities arising in respect of applications for, direct payments under the basic payment scheme in Wales made in respect of a claim year ending on or before 31 December 2028.

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39753-6

£8.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1282

9 780348 397536